Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi’r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo’r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn Comisiwn Tegwch Casnewydd i’r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Robert Fisher **Rôl:** Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg

.

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad:** 26/06/2019

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

√/**X**

Ar ôl cwblhau’r Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.ukk

1. Enw a disgrifiad y polisi / cynnig sy’n cael ei gynnig. Amlinellwch ddiben y polisi.

Y diben yw cael caniatâd i fwrw ymlaen â chynnig ad-drefnu ysgolion i ehangu ac o ganlyniad creu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion drwy gynyddu capasiti’r ysgol o 48 i 68 o fis Ionawr 2020. Cefnogir y cynnig hwn gan gyllid cyfalaf llawn gan Gynllun Buddsoddi Cyfalaf Cronfa Gofal Integredig Gwent (CGI).

Mae’r cynnig hwn yn cefnogi’r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym mhob rhan o ddinas Casnewydd. Mae’r galw am leoedd yn narpariaeth arbenigol ASA, yn sgil anghenion adnabyddedig disgyblion ysgolion Casnewydd ar hyn o bryd, yn uwch na’r ddarpariaeth sydd ar gael yn y ddinas.

Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gasnewydd, gan y bydd yn cynnig cyfleusterau ychwanegol i gefnogi plant sydd ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd priodol a diogel.

Mae’r cyfnod ymgynghori wedi galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i holi barn pobl am y cynnig.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt

Roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dwy sesiwn galw heibio gyda'r bobl hynny y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fwyaf, pan oedd swyddogion y Cyngor ar gael i egluro'r cynigion yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau: Roedd llyfrynnau ar gael yn ogystal yn yr ysgol dan sylw i'r rhieni eu casglu.

Cyflwynwyd sylwadau a chwestiynau gan ddefnyddio ffurflen ymateb. Roedd y ffurflen ar gael yn y sesiynau galw heibio neu roedd modd ymateb drwy ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor. Defnyddiwyd platfformau megis Twitter a Facebook hefyd i rannu gwybodaeth ar y newidiadau a gynigiwyd.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y farn a fynegwyd cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir parhau, cyhoeddir hysbysiad statudol yn y wasg leol ac yn yr ysgol. Bydd y cyfnod hysbysu statudol yn para 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch bwrw ymlaen neu beidio. Os ceir gwrthwynebiadau, caiff y penderfyniad terfynol ei gyfeirio at Gabinet y Cyngor.

Paratowyd a dosbarthwyd dogfen ymgynghori ar sail Fersiwn Cryno Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc.

Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed barn dysgwyr wrth symud cynigion ad-drefnu ysgolion yn eu blaen. Fodd bynnag, yn yr achos hwn teimlodd y Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwyr na fyddai'n briodol ymgysylltu â disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bryn Derw ar hyn o bryd yn ystod y cam ymgynghori o ganlyniad i'w hanghenion dysgu ychwanegol penodol. Mae gan ddisgyblion yn yr ysgol, y mae pob un ohonynt wedi cael diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA), lefelau uchel o or-bryder, maent yn cael trafferth gyda newid, yn cael eu drysu gan yr anhysbys ac yn anrhagweladwy. O ystyried y ffaith yr oedd y cynnig ond ar y cam ymgynghori ffurfiol yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, ni ymgysylltwyd â'r disgyblion. Ond ymgysylltir ac ymgynghorir â nhw ynghylch y cynlluniau adnewyddu os aiff y cynnig yn ei flaen.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried yn berthnasol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol yn nodi'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw yn rhan o'r broses. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol.

Bydd y grwpiau rhanddeiliaid yn cynnwys disgyblion, rhieni, gofalwyr, Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgolion Casnewydd, staff ysgolion, aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd ac Estyn. Mae gan ddisgyblion yn yr ysgol, y mae pob un ohonynt wedi cael diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA), lefelau uchel o or-bryder, maent yn cael trafferth gyda newid, yn cael eu drysu gan yr anhysbys ac yn anrhagweladwy. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, mae Adroddiad Ymgynghori wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a chaiff ei ddefnyddio i benderfynu cyhoeddi cynnig statudol neu beidio. Mae'r AEDCh hefyd wedi'i ddiweddaru ar y cam hwn. Mae cyhoeddi cynnig statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gofnodi gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	**Effaith:**			**Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:** **1. Hyrwyddo cyfle cyfartal** **2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol** **3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?**
	Cadarnhaol	**Negyddol**	**Y naill na'r llall**	
Oedran	☒	☐	☐	Mae Ysgol Bryn Derw yn gwasanaethau'r ddinas gyfan ac yn helpu i ddarparu addysg i blant rhwng 3 a 19 oed â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig, na all y ddarpariaeth prif ffrwd na'r Uned Adnoddau Dysgu (UAD) ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Bydd ehangu'r ysgol yn lleihau'r angen i sicrhau lleoedd y tu allan i'r sir i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd ac felly'n galluogi disgyblion Casnewydd i gael eu haddysgu yn y ddinas.
Anabledd	☒	☐	☐	Mae Ysgol Bryn Derw yn gwasanaethau'r ddinas gyfan ac yn helpu i ddarparu addysg i blant rhwng 3 a 19 oed â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig, na all y ddarpariaeth prif ffrwd na'r Uned Adnoddau Dysgu (UAD) ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Bydd ysgol fwy yn lleihau'r angen i ddarparu lleoedd y tu allan i'r sir i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd y cynnig yn sicrhau y gallu mwy o blant gydag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac anawsterau dysgu cysylltiedig eu haddysgu yng Nghasnewydd. Bydd y ddarpariaeth ehangach yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r llall	
Ailbennu rhywedd/trawsrywe ddol	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Priodas neu bartneriaeth sifil	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Beichiogrwydd neu famolaeth	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Hil	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Rhyw / Hunaniaeth Rhywedd	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☒	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd hon a ddiogelir.
Y Gymraeg	☒	☐	☐	Bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn cyfle i fanteisio ar bob agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys Cwricwlwm Cymraeg.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor datblygu cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir	Sefydlwyd Ysgol Bryn Derw ym mis Medi 2017 i greu ysgol arbennig sy'n cynnig 48 o leoedd amser llawn i blant gydag ASA ac anawsterau dysgu perthnasol o'r cyfnod Meithrin i grŵp Blwyddyn 14 (ystod oedran 3 – 19). Yn ôl Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr 2018, roedd 47 o blant ar gofrestr yr ysgol. Dyrannwyd yr unig le oedd ar ôl ar gyfer derbyn i'r ysgol ym mis Medi 2018. Mewn ailasesiad o gapasiti'r ysgol yn nhymor yr haf 2018 nodwyd y gellid o bosibl derbyn wyth disgybl ychwanegol o fis Medi 2018. Cafodd yr holl leoedd gwreiddiol ac ychwanegol eu llenwi ym mis Medi 2018 ac mae rhestr aros bellach ar waith. Felly, ddwy flynedd ers ei hagor mae gan yr ysgol fwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael. Ar sail y garfan ddisgyblion bresennol, nid yw'n ymddangos y bydd unrhyw ddisgyblion yn gadael yr ysgol am bedair blynedd arall gan fod y disgyblion hynaf ym Mlwyddyn 10. O ystyried y sefyllfa hon, a'r ffaith y gall disgyblion aros ar gofrestr yr ysgol nes eu 19 oed, ychydig iawn o gyfleoedd fydd i dderbyn disgyblion pellach yn ystod y blynyddoedd academaidd nesaf. Gallai hynny olygu y bydd rhaid i ni anfon y disgyblion hynny sydd angen lleoliad Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig arbenigol ar hyn o bryd sydd nawr yn ein Canolfannau Adnoddau Dysgu Cynradd lleol i ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Mae'r rhain yn ddrud a gallant fod gryn bellter i ffwrdd o gartref y disgybl. Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gasnewydd gan y bydd yn cynnig cyfleusterau ychwanegol i roi cymorth i blant ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd addas a diogel.

Egwyddor datblygu cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cydweithio i gyflawni amcanion	Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Gynllun Buddsoddi Cyfalaf i Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru (CGI) am gyllid cyfalaf llawn i gyflawni'r project hwn. Mae canlyniadau'r project yn cefnogi'n glir ddwy o'r blaenoriaethau a nodwyd gan Bartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd, sef: • *Gwella deilliannau plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth drwy ymyrryd yn gynharach, cymorth yn y gymuned a lleoedd yn agosach i'w cartref.* • *Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i blant a theuluoedd sydd ag anghenion cymhleth er mwyn lleihau'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir a chynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn sgiliau byw.*

Egwyddor datblygu cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn	Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi'u cynnwys yn y broses ymgynghori: • Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Bryn Derw; • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynd i Ysgol Bryn Derw; • Disgyblion yn Ysgol Bryn Derw; • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i Ysgol Maes Ebwy; • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i ddosbarthiadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu ar draws y ddinas; • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sydd â diagnosis ASA ac yn mynd i leoliadau y tu allan i'r Ddinas; • Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd; • Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Maes Ebwy; • Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd; • Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd; • Gweinidogion Cymru; • Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig; • Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol; • Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru; • Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy; • Yr Archesgobaeth Gatholig; • Estyn; • Undebau Llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Bryn Derw; • Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent; • Heddlu Gwent; • Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; • Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; • Iechyd Cyhoeddus Cymru; • Canolfan Serennu Casnewydd; • SNAP Cymru; • Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent; • Gwasanaethau Ataliol. Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, caiff Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Egwyddor datblygu cynaliadwy	Ydy eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu	Rhagwelir y bydd galw parhaus am leoedd yn Ysgol Bryn Derw ledled Casnewydd. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth yn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn y dyfodol a hefyd yn helpu mwy o ddisgyblion i gael eu haddysgu yn y ddinas.
Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill	Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ac ar ansawdd y deilliannau addysg yn y sector ysgolion arbennig. Mae Ysgol Bryn Derw eisoes yn gymwys i gyflwyno cwricwlwm llawn i bob grŵp blwyddyn o'r cyfnod Meithrin i Flwyddyn 14 ac ni fydd cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion yng nghymuned yr ysgol yn cael effaith negyddol ar y disgyblion sydd eisoes yn mynd i'r ysgol hon. Bydd y cynnig yn arwain at gynnig cyfleusterau ychwanegol i roi cymorth i blant ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd addas a diogel. Mae'n ymddangos y bydd buddion y cynnig yn cynnwys: • Darparu lleoedd addysg arbenigol ychwanegol mewn ysgol bwrpasol briodol pan gredir na fyddai lleoliad mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol; • Lleoedd ychwanegol ar gael o bosib yn sgil hyn mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu i gefnogi disgyblion sydd angen amgylcheddau prif ffrwd â chymorth; • Datblygu safle ysgol sydd eisoes yn bodoli; • Lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a chyfle i ddisgyblion sy'n mynd i ddarpariaethau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd gael eu hailintegreiddio yn ôl i'w hardal leol i barhau gyda'u haddysg; • Gostwng yr amser teithio i ddisgyblion sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r sir; • Darparu ystod ehangach o leoedd i ddisgyblion gydag ADY sy'n ei chael yn heriol bod mewn amgylcheddau swnllyd a phrysur.

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae Ysgol Bryn Derw eisoes yn ysgol sefydledig sy'n agored i ddisgyblion ledled y ddinas. Mae'r cynnig yn cefnogi datblygu cyfleusterau ychwanegol heb unrhyw effaith niweidiol ar ddarpariaeth

yr ysgol, ac yn wir, ar ddarpariaeth unrhyw ysgol arall yn y Ddinas. Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gasnewydd gan y bydd yn darparu cyfleusterau ychwanegol i gefnogi plant ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd addas a diogel.

7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth nodi'r gwahaniaeth
Mae'r cynnig yn nodi bod ar y plant y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt angen addysg trwy ddull gwahanol sy'n rhoi'r un cyfleoedd iddynt fanteisio ar addysg gyfoethog a maethol yn yr un modd â'r holl blant eraill yng Nghasnewydd.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth
Nid oes dalgylch i Ysgol Bryn Derw. Fe'i defnyddir yn bennaf i gymryd disgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd, fodd bynnag, os oes lleoedd ar gael, mae'n bosib i ALlau cyfagos brynu lleoedd gwag i'w disgyblion. Ni all disgyblion wneud cais am le yn Ysgol Bryn Derw drwy drefniadau derbyn arferol y Cyngor. Yn hytrach, mae'r broses dderbyn yn seiliedig ar anghenion unigol yn dilyn asesiad gan y Tîm Cynhwysiant Addysg. Mae pob disgybl sy'n mynd i'r ysgol â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd y Cyngor yn ystyried dewis y rhieni wrth benderfynu a bydd yn ymgynghori â'r Pennaeth a'r Corff llywodraethu o ran pa mor addas yw'r lleoliad.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn y berthynas â'r gymuned
Mae'n ymddangos y bydd buddion y cynnig yn cynnwys:

- Darparu lleoedd addysg arbenigol ychwanegol mewn ysgol bwrpasol briodol pan gredir na fyddai lleoliad mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol;
- Lleoedd ychwanegol ar gael o bosib yn sgil hyn mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu i gefnogi disgyblion sydd angen amgylcheddau prif ffrwd a gefnogir;
- Datblygu safle ysgol sydd eisoes yn bodoli;
- Lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a chyfle i ddisgyblion sy'n mynd i ddarpariaethau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd gael eu hailintegreiddio yn ôl i'w hardal leol i barhau gyda'u haddysg;
- Gostwng yr amser teithio i ddisgyblion sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r sir;
- Darparu ystod ehangach o leoedd i ddisgyblion gydag ADY sy'n ei chael yn heriol bod mewn amgylcheddau swnllyd a phrysur.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau
Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol a democrataidd.

8 Gan ystyried yr holl asesiad, beth gellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Er bod hyn yn annhebygol, os bydd y galw am leoedd yn gostwng, gellid addasu'r ysgol i groesawu disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol eraill o'r sector ysgolion arbennig. Os yw'r galw am leoedd yn cynyddu, bydd y Dirprwy Bennaeth Addysg (Cynhwysiant) yn parhau i gynllunio ar gyfer darpariaeth ledled y Ddinas yn y dyfodol.

9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoedd ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y farn a fynegwyd cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir parhau, cyhoeddir hysbysiad statudol yn y wasg leol ac yn yr ysgol.

Bydd y cyfnod hysbysu statudol yn para 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion.

Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran pa un ai bwrw ymlaen neu beidio. Os ceir gwrthwynebiadau, caiff y penderfyniad terfynol ei gyfeirio at Gabinet y Cyngor.

10 Cynnwys Pobl

Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Roedd y cynnig ar gael ar-lein, fel copi caled, dros e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dwy sesiwn galw heibio ymhlith y rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fwyaf, ac roedd swyddogion y Cyngor ar gael i egluro'r cynigion yn fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau.

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

11 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010
Gan fod yr ysgol eisoes wedi'i sefydlu fel ysgol arbenigol bwrpasol ar gyfer disgyblion Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, mae'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Y Gymraeg
Bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **Tymor hir: pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hir:**
  Drwy gefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ledled Casnewydd a galluogi disgyblion i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cartrefi.

- **Atal:**
  Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion:
  Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion ledled y ddinas gan y bydd cyfleusterau ychwanegol ar gael i roi cymorth i blant sydd ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd priodol a diogel a bydd hefyd yn galluogi disgyblion gydag anghenion ychwanegol i fynychu ysgol leol.

- **Integreiddio:**
  Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion llesiant, ein nodau llesiant, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill:
  Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chaiff ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".

- **Cydweithio:**
  Ydych chi wedi ystyried sut y gall cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad helpu i fodloni ein hamcanion llesiant:
  Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo ac mae'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.

- **Cynnwys Pobl:**
  Pwysigrwydd cynnwys pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas a wasanaethwn:
  Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo mae'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.